Senedd Cymru
**Finance Committee**

# Gwybodaeth i Ymgeiswyr:
Aelod Anweithredol
Swyddfa Archwilio Cymru

Ionawr 2025

# Cyflwyniad

Diolch am fynegi diddordeb yn rôl Aelod Anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru.

Er mwyn gosod y cyd-destun, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol annibynnol y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gorff corfforaethol sy'n cynnwys Bwrdd statudol ag iddo naw aelod sy'n cyflogi staff ac yn darparu adnoddau eraill i'r Archwilydd Cyffredinol, sydd hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu'r Bwrdd Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch arfer ei swyddogaethau.

Gyda'i gilydd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu o dan ymbarél Archwilio Cymru.

Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol o dan **Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013** (Deddf 2013) a dechreuodd ei hystod lawn o swyddogaethau ar 1 Ebrill 2014.

Bydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd) yn cynnwys naw aelod, y bydd pump ohonynt yn aelodau anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd) ynghyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a thri o gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru. Penodir yr aelodau anweithredol gan Senedd Cymru (a adwaenir yn gyffredinol fel 'y Senedd'). Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn enwebu un aelod sy'n gyflogedig, i'w benodi gan yr aelodau anweithredol, a'r aelodau anweithredol sy'n penodi'r ddau arall yn dilyn balot staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Senedd am benodi Aelod Anweithredol i'r Bwrdd, i ddechrau ar 1 Gorffennaf 2025.

Os oes gennych ymholiadau ynghylch y rôl neu'r broses recriwtio, neu os oes angen cyngor arnoch ar y ffordd orau i gyflwyno'ch cefndir, eich sgiliau a'ch profiad yn eich cais, cysylltwch ag: Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid: owain.roberts@senedd.cymru.

## Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddeiliad swydd statudol sy'n gyfrifol am amrywiaeth o swyddogaethau archwilio, gan gynnwys archwilio cyfrifon y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer i gynnal archwiliadau gwerth am arian.  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r cyrff eraill a gaiff eu harchwilio ac mae ganddo ddisgresiwn llwyr ynghylch sut y caiff swyddogaethau'r swydd honno eu harfer. Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio oddeutu £24 biliwn o wariant cyhoeddus yng Nghymru.

## Swyddfa Archwilio Cymru

Ar 1 Ebrill 2014, trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros gyflogi staff, dal eiddo a sicrhau gwasanaethau o'r Archwilydd Cyffredinol i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r sefydliad yn cyflogi oddeutu 280 o staff a'r Archwilydd Cyffredinol yw ei Brif Weithredwr a'i Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Strategaeth Pum Mlynedd yn nodi pwrpas, gweledigaeth a ffocws Archwilio Cymru ar gyfer 2022-2027. Mae gwybodaeth am ddiwylliant a gweithio i Archwilio Cymru ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- baratoi cynllun blynyddol ac adrodd ar gynnydd o ran ei gyflawni;
- paratoi amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau a chynllun ar gyfer codi ffioedd;
- paratoi ac adolygu cod ymarfer i ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn sefydlu cyfeiriad strategol y sefydliad, gan osod y weledigaeth a'r gwerthoedd sy'n pennu ei ddiwylliant.

At hynny, mae gan y Bwrdd swyddogaethau statudol penodol sydd wedi'u gosod mewn deddfwriaeth, gan gynnwys:

- monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol ar arfer ei swyddogaethau. Yn y pen draw, fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am arfer y swyddogaethau hynny, gan gynnwys rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r

adnoddau a fydd yn ofynnol ganddo, yn nwylo'r Archwilydd Cyffredinol yn unig;

- goruchwylio a llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru;
- darparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, fel drwy gyflogi staff a defnyddio gwasanaethau contractwyr;
- paratoi, adolygu a diwygio cynllun ar gyfer codi ffioedd, a gosod hwn (ac unrhyw adolygiad) gerbron y Senedd;
- ystyried a ddylid argymell person/cwmni i'r Senedd i archwilio cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru;
- cynghori'r Archwilydd Cyffredinol ar baratoi neu adolygu cynllun ar gyfer dirprwyo'r gwaith o arfer ei swyddogaethau;
- trefnu i ddarparu gwasanaethau neu gymorth gan yr Archwilydd Cyffredinol (yn dilyn ymgynghoriad â'r Archwilydd Cyffredinol) a chan Swyddfa Archwilio Cymru.

Caiff y Bwrdd ddirprwyo ei swyddogaethau i unrhyw rai o'i aelodau, pwyllgorau, cyflogeion neu ddarparwyr gwasanaethau, ac eithrio ei swyddogaethau o baratoi'r amcangyfrif, y cynllun blynyddol, adroddiadau blynyddol ac interim, pennu rheolau gweithdrefnol Swyddfa Archwilio Cymru, argymell archwilydd a phenodi person i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro.

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd i gyflawni swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn effeithiol ac yn effeithlon.

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnal chwe chyfarfod ym mhob blwyddyn ariannol, a gynhelir yn bersonol dros ddau ddiwrnod i ymdrin â materion strategol a busnes. Mae cyfarfodydd wedi'u hamserlennu i gyd-fynd â dyddiadau allweddol yng nghylch busnes Swyddfa Archwilio Cymru. At hynny, mae'n cynnal Diwrnod Datblygu blynyddol wyneb yn wyneb a gynhelir ar y cyd â'r Tîm Arwain Gweithredol. O bryd i'w gilydd gellir trefnu sesiynau pellach at ddibenion hyfforddiant Bwrdd neu er mwyn delio â busnes brys.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a'r Pwyllgor Tâl ac Adnoddau Dynol, gyda'r naill a'r llall yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal yn rhithwir ar hyn o bryd ond efallai y caiff hyn ei adolygu. Penodir aelodau anweithredol ar draws y pwyllgorau hyn.



Alison Gerrard, Aelod o'r Bwrdd

Yn ystod fy ngyrfa hir yn y GIG, ym maes Cyllid a Llywodraethu, roeddwn wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Swyddfa Archwilio Cymru (a'r sefydliadau a'i rhagflaenodd) ac roeddwn wedi gofyn yn aml am enghreifftiau o arfer gorau pan oedd adroddiadau archwilio yn awgrymu gwelliannau. Felly, pan ymddeolais 10 mlynedd yn ôl, a rôl Aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn codi, roedd hwn yn ymddangos fel cyfle perffaith i ddefnyddio fy sgiliau.

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, bûm yn llwyddiannus wrth wneud cais am rôl Aelod Anweithredol. Er bod gan y sefydliad gyfundrefnau llywodraethu a chyllid unigryw, yn sicr nid oes angen i chi fod yn arbenigwr yn y naill na'r llall; dim ond cael dealltwriaeth glir o wahanol rolau a chyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (a elwir, gyda'i gilydd, yn Archwilio Cymru).

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru (y Bwrdd) yn gymharol newydd pan gefais fy mhenodi ac rwyf wedi gweld y Bwrdd, a'r sefydliad yn ehangach, yn tyfu ac yn datblygu dros fy nau dymor. Cafwyd Archwilydd Cyffredinol Cymru newydd, aelodau newydd o'r Bwrdd ac uwch dîm arwain wedi'i ad-drefnu a'i adnewyddu.

Er bod ein systemau llywodraethu craidd bellach wedi'u hen sefydlu, fel Bwrdd rydym yn cydnabod gwerth gwelliant parhaus, ac rydym yn ymdrechu i osod esiampl dda yn ein gwerthoedd ac yn y gwaith a wnawn. Felly gallwch fod yn hyderus y byddwch yn ymuno â sefydliad sydd â phobl ragorol ac ymroddedig yn ganolog iddo, ac sy'n croesawu cyfleoedd i ddatblygu ei ffyrdd o weithio ymhellach.

Dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, bydd rhagor o newidiadau yn Archwilio Cymru, gyda phenodi Archwilydd Cyffredinol newydd yn 2026 ac wrth i'r sefydliad addasu i newidiadau mewn dulliau archwilio, newid o ran dulliau technolegol ac o ran personél wrth i staff ac arweinwyr symud drwy eu gyrfaoedd. Bydd gan y

Bwrdd rôl ganolog yn llywio Archwilio Cymru drwy newidiadau o'r fath ac mae'n datblygu ei feddwl strategol o ran dyfodol Archwilio Cymru, sy'n ei gwneud yn amser cyffrous i aelod newydd ymuno a chyfrannu at y materion hyn.

Byddwn hefyd yn dweud, er bod canfyddiad weithiau bod archwilio ac archwilwyr yn ddiflas, nid yw hyn yn wir o gwbl yn Archwilio Cymru. Mae gennym weithlu proffesiynol, wrth gwrs, sy'n ymdrin â materion difrifol, ond rwyf wedi dod ar draws cymaint o ddeinameg a bywiogrwydd ag unrhyw sefydliad arall yr wyf wedi gweithio ynddo. Rydw i wir wedi mwynhau pob eiliad yn fy swydd, a'r bobl rydw i wedi gweithio gyda nhw ac rydw i'n mynd i golli bod yn rhan o sefydliad mor wych. Byddwn yn argymell yn sicr i rywun wneud cais am y rôl hon.

# Manyleb y Person

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu dangos ei fod yn bodloni'r cymwyseddau hyn:

## Hanfodol

- y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a gwneud penderfyniadau cadarn;
- y gallu i feddwl yn strategol i herio a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau;
- dealltwriaeth o arferion archwilio cyfredol;
- profiad o sicrhau llywodraethu effeithiol ar lefel uwch reolwyr neu ar lefel bwrdd;
- sgiliau rhyngbersonol rhagorol i hwyluso cydweithio;
- ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## Dymunol

- Profiad o gadeirio;
- Profiad archwilio lefel uchel yn ddiweddar.

# Telerau'r penodiad

## Tâl Cydnabyddiaeth

Aelod Anweithredol: £12,500 y flwyddyn, amhensiynadwy, tua 2-3 diwrnod y mis.

Treuliau teithio a chynhaliaeth a ddefnyddiwyd yn briodol ac yn angenrheidiol, sy'n cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Swyddfa Archwilio Cymru.

Gellir addasu tâl Aelodau Anweithredol yn ystod cyfnod penodol y penodiad pe bai unrhyw Aelodau o'r Bwrdd yn y dyfodol yn cael eu penodi ar gyflog uwch.

## Cyfnod

Caiff aelodau anweithredol eu penodi am gyfnod penodol o hyd at 4 blynedd, a bydd y panel penodi'n penderfynu ar union hyd y penodiad. Ni chaiff aelodau eu penodi fwy na dwywaith (gyda phob penodiad am gyfnod o hyd at 4 blynedd).

## Lleoliad

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd a sesiynau datblygu wyneb yn wyneb fel arfer, yng Nghaerdydd yn ogystal â mannau eraill yng Nghymru. Gall y rhain olygu aros dros nos o bryd i'w gilydd.

## Statws

Mae'r aelodau anweithredol yn ddeiliaid swyddi yn Swyddfa Archwilio Cymru yn hytrach nag yn gyflogeion y Senedd.

## Cymhwystra: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol

Er mwyn lleihau'r risg o wrthdaro buddiannau, ni fydd modd ystyried rhai unigolion ar gyfer eu penodi, sef:

- Aelodau o'r Senedd neu'r rheini sy'n ymgeisio i fod yn Aelodau o'r Senedd;
- Aelodau cyrff seneddol eraill y DU;
- deiliaid unrhyw swydd y gellid penodi person iddi, neu y gellid ei argymell neu ei enwebu i'w benodi, gan neu ar ran:
    - Y Goron;

  - y Senedd; neu
  - Comisiwn y Senedd;

- Aelodau o staff Comisiwn y Senedd neu staff Llywodraeth Cymru a phobl a gaiff eu cyflogi gan Aelodau'r Senedd neu grŵp o Aelodau'r Senedd;
- aelodau o Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
- y Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'r person hwnnw'n Aelod o'r Senedd);
- person sydd wedi'i benodi fel Cyfarwyddwr Anweithredol Llywodraeth Cymru neu Gynghorwyr Annibynnol i Gomisiwn y Senedd;
- cyflogeion neu aelodau o unrhyw gorff y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilydd arnynt.

Yn unol ag egwyddorion 'Nolan' ar gyfer bywyd cyhoeddus, bydd unrhyw amgylchiadau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau sylweddol yn cael eu hystyried wrth drafod ymgeiswyr ar gyfer penodiad.

Atgoffir ymgeiswyr o'u cyfrifoldebau i fod yn fodlon nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag gwasanaethu fel Aelod o'r Bwrdd drwy gyfeirio at baragraff 26 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013. Bydd unrhyw faterion o ran anghymwyso neu wrthdaro a ddatgelir fel rhan o'r broses recriwtio yn cael eu trafod ag ymgeiswyr ar adeg briodol.

Mae'n bosibl, felly, y bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus roi'r gorau i rai swyddi allanol fel un o amodau eu penodiad.

# Y Broses Ddethol

Bydd panel sy'n cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac un o uwch-swyddogion y Senedd yn ymgymryd â'r broses ddethol ar gyfer penodiadau ac yn gyfrifol am y broses honno. Bydd y Panel yn rhoi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal. Bydd gweithwyr adnoddau dynol proffesiynol y Senedd yn cefnogi'r Panel.

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried argymhellion y panel, yn cytuno ar y penodiadau, ac yn gosod adroddiad gerbron y Senedd yn cadarnhau ei benderfyniadau.

Er mwyn hwyluso'r cyfnod pontio, a chan ddibynnu ar eu hymrwymiadau eraill, mae'n bosibl y gofynnir i'r ymgeiswyr llwyddiannus arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd a chymryd rhan mewn rhaglen gynefino cyn eu penodi'n ffurfiol.

## Y broses o wneud cais

Bydd y broses recriwtio'n cael ei chynnal yn unol ag egwyddorion cyfle cyfartal – mae hyn yn golygu y dylai pawb gael yr un cyfleoedd ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y rôl.

Rydym, felly, yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, ffydd neu anabledd, o bob cefndir a gyda llawer o sgiliau, profiad a safbwyntiau gwahanol.

Rydym yn falch o weithredu o dan y Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r gofynion hanfodol ar gyfer y swydd.

Ymarfer recriwtio di-enw hwn a bydd pob cais yn ddienw er mwyn osgoi rhagfarn. Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod, yn dilyn proses deg a thryloyw.

- Gallwch wneud cais trwy gyflwyno CV, a datganiad ategol sy'n amlinellu'r hyn wnaeth eich cymell i wneud cais am y rôl, a sut rydych yn bodloni'r fanyleb person (dim mwy na 2 ochr A4 o hyd). Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi sylw i'r gofynion allweddol a nodir ym manyleb y person. Bydd y cymwyseddau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r broses asesu.

- Os credwch y byddech yn ychwanegu gwerth at y bwrdd ond nad ydych yn bodloni'r holl gymwyseddau a amlinellir yn y fanyleb person, hoffem

glywed gennych o hyd. Eglurwch y gwerth y byddech yn ei gynnig yn eich datganiad ategol.

- Er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rolau hyn, bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno ffurflen Cymhwystra: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol gyda'ch cais i ganiatáu i wiriadau perthnasol gael eu cynnal.
- Sicrhewch fod unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth ac addysg yn cael eu hesbonio'n llawn ar eich CV. Byddwn yn gwirio'r wybodaeth hon yn ystod y broses recriwtio.
- Rhowch fanylion dau ganolwr (yn ddelfrydol, dylai un ohonynt fod yn gyflogwr presennol) – dim ond gyda'ch caniatâd y byddwn yn mynd at ganolwyr, ac os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer.
- Anogir ymgeiswyr hefyd i lenwi a chyflwyno ffurflen monitro Cyfle Cyfartal gyda'ch cais. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y swyddi hyn yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned a byddwn yn defnyddio'r data hyn i fonitro ein cynnydd wrth gyflawni hynny.

Sut i wneud cais

- Cyflwyno CV a datganiad ategol, ffurflen Cymhwystra: Gweithgareddau Gwleidyddol ac Allanol ac (yn ddewisol) ffurflen monitro Cyfle Cyfartal i **Swyddi@senedd.cymru**
- Dylid tynnu eich enw oddi ar eich CV a datganiad personol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw canol nos 7 Mawrth 2025. Cydnabyddir pob cais sy'n dod i law.
- Os hoffech siarad ag aelod presennol o'r bwrdd am y rôl hon, cysylltwch ag Ysgrifennydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Katherine Drysdale Katherine.Drysdale@audit.wales.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y broses recriwtio a'ch cymhwystra ar gyfer y rôl, cysylltwch ag Owain Roberts. Clerc y Pwyllgor Cyllid **owain.roberts@senedd.cymru**

- Cysylltwch â ni am sgwrs os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon. Gallwn hefyd drafod pa addasiadau yr hoffech iddynt gael eu gwneud petaech yn cael eich penodi er mwyn i chi allu cyfranogi'n llawn. Anfonwch e-bost at swyddi@senedd.cymru cyn gynted â phosibl a byddwn yn cysylltu â chi i drafod gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Ar ôl y dyddiad cau, bydd y panel penodi yn llunio rhestr fer, gan asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer y rôl yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir yn y CV a'r datganiad ategol.

Bydd Tîm Adnoddau Dynol Comisiwn y Senedd yn cysylltu'n uniongyrchol â chi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am statws eich cais. Os byddwch yn llwyddiannus ar y cam rhestr fer, cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 28 Ebrill 2025.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Croesewir ceisiadau gan ystod amrywiol o bobl, o bob cefndir a chyda llawer o sgiliau, profiadau a safbwyntiau gwahanol. Rydym yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan bobl anabl a phobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.

Caiff pob penodiad ei wneud yn ôl teilyngdod.

## **Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol** Swyddfa Archwilio Cymru